| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 7 Mehefin 2000 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | **ADRODDIAD Y PWYLLGOR MATERION CYMREIG AR OFAL PLANT YNG NGHYMRU** |

## Pwrpas

1. Gwahodd y Pwyllgor i gytuno ar ymateb drafft i adroddiad y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig.

## Crynodeb/Argymhellion

2. Amgaeeir yr ymateb drafft i Adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar Ofal Plant yng Nghymru.

## Amseriad

3. Cyflwynodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ei ymateb i gadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig ar 22 Rhagfyr (mae atodiad 1c yn amgaeedig). Nid oes amserlen bendant i'r Cynulliad ystyried adroddiad y Pwyllgor. Argymhellir y dylid cynnig ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Dethol cyn pen-blwydd cyhoeddi'r adroddiad, hy erbyn canol Mehefin.

## Cefndir

4. Yn ei ddatganiad cyn y Gyllideb ar 25 Tachwedd 1997, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys raglen pum mlynedd i ddod â gofal plant y tu allan i oriau ysgol i bob cymuned ym Mhrydain ac i ddarparu lleoedd ar gyfer hyd at filiwn o blant. Y nod yw hybu gofal plant o ansawdd da, sy'n fforddadwy ac yn gyfleus, ar gyfer rheini sy'n dymuno gweithio, cael addysg neu hyfforddiant. Yn ystod y misoedd dilynol, datblygwyd y cynigion hyn a lluniwyd Papurau Gwyrdd ar wahân ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a hynny o fewn fframwaith strategaeth gyffredinol y Llywodraeth ar gyfer y Deyrnas Unedig. Cyhoeddwyd Papur Gwyrdd y Swyddfa Gymreig, *Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant yng Nghymru*, ym mis Mehefin 1998. Derbyniwyd tua 100 o ymatebion a chynhaliwyd cynhadledd ymgynghorol ym mis Medi 1998. Ystyriwyd y prif themâu a nodwyd yn ystod yr

ymgynghoriad wrth ddatblygu canllawiau ar gyfer partneriaethau gofal plant lleol.

5. Mae'r strategaeth yn cael ei rhoi ar waith gan Bartneriaethau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ym mhob un o ddalgylchoedd y 22 llywodraeth leol. Cyhoeddwyd canllawiau ar gyfer Partneriaethau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ym mis Chwefror 1999. Mae'r Partneriaethau wedi llunio cynlluniau i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn yr ardaloedd hyn.

6. Ym mis Medi 1998, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cymreig y byddai'n ymchwilio i ofal plant yng Nghymru. Ar ôl hynny, bu'r Pwyllgor yn archwilio i weld a oedd y Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant yng Nghymru yn diwallu anghenion plant a rhieni ac a oedd yn llawn sylweddoli'r amrywiaeth o ran anghenion, y ddaearyddiaeth, yr iaith a diwylliant, a lefelau incwm yng Nghymru. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y gwasanaethau gofal plant a oedd yn cael eu darparu a beth arall oedd ei angen. Bu hefyd yn ystyried sut i hybu ansawdd a dewis a sut i sicrhau gweithlu gofal plant â'r cymwysterau priodol. Yn olaf, bu'n archwilio costau gwasanaethau gofal plant a sut y dylid ei ariannu a'i gynnal yn y tymor hir.

7. Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar 21 Mehefin 1999, ac mae copi llawn o'r testun ar gael yn y Llyfrgell. Bu'r Cynulliad yn trafod yr Adroddiad yn ei gyfarfod llawn ar 6 Gorffennaf. Yr oedd y cynnig, a basiwyd, yn cynnwys ymrwymiad i roi'r cyfrifoldeb am drafod yr Adroddiad yn nwylo'r Weithrediaeth, ac yna yn nwylo Pwyllgorau priodol y Cynulliad er mwyn iddynt ystyried sut y byddai'r Cynulliad yn gallu rhoi'r argymhellion ar waith. Yn ei sylwadau clo yn ystod y ddadl, dywedodd Rosemary Butler y byddai'r materion a godwyd gan yr adroddiad yn cael eu dwyn i sylw **pob un** o bwyllgorau'r Cynulliad.

**I'w ystyried**

8. Mae'r Adroddiad yn cynnwys nifer o gasgliadau ac argymhellion gwahanol sy'n berthnasol i nifer o Bwyllgorau'r Cynulliad. Mae rhai yn benodol ac yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Cynulliad, tra bo eraill yn fwy cyffredinol eu natur ac yn fwy perthnasol i Adrannau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol, partneriaethau gofal plant lleol ac eraill. Yn atodiad 1a ceir yr ymateb arfaethedig i gasgliadau ac argymhellion yr Adroddiad. Yn atodiad 1b ceir awgrymiadau ar ba argymhellion sydd o ddiddordeb i ba bwyllgor.

**Cydymffurfio**

9. Nid oes unrhyw faterion priodoldeb na rheoleidd-dra. Ymgynghorwyd â Swyddfa Gydymffurfio'r Cynulliad ynghylch y cyflwyniad hwn ac mae'n fodlon â'r agweddau cydymffurfio.

**Goblygiadau ariannol**

10. Nid yw'r ymateb drafft yn ymrwymo'r Cynulliad i wariant ychwanegol yn y tymor byr, ond mae'n dweud y bydd angen ystyried ein profiad hyd yma a'n blaenoriaethau eraill wrth gynllunio cyllid yn y dyfodol. Bydd cyllid o £2.3 miliwn ar gael yn 2000-2001 i gefnogi'r Strategaeth Ofal Plant. Byddai'n rhaid bodloni unrhyw ofynion ariannol ychwanegol drwy arbed arian mewn meysydd eraill.

Ymgynghorwyd â’r Adran Cynllunio Cyllid a’r Adran Cyllid Llywodraeth Leol yngln â’r cyflwyniad hwn ac maent yn fodlon â’r agweddau ariannol.

**Themâu trawsbynciol**

11. Wrth ystyried y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru mae’n rhaid cydweithredu â llywodraeth leol a’r sector gwirfoddol, ac â darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr. Mae cysylltiad clòs rhyngddo hefyd a’r gwaith o lunio’r Strategaeth Plant a Phobl Ifanc, yn enwedig addysg y blynyddoedd cynnar, ac mae’n berthnasol i gynhwysiant cymdeithasol ac economaidd.

**Gweithredu**

12. Gofynnir i’r Pwyllgor fynegu’i farn ar yr ymateb arfaethedig yn atodiad 1a. Trafodwyd yr ymateb yn y Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar ar 15 Mawrth. Mae’r newidiadau a gynigiwyd yn y cyfarfod hwnnw wedi’u hymgorffori yn y fersiwn amgaeedig o’r atodiad hwn.

**Enw Cyswllt**

13. Mr C J Burdett, Is-adran Plant a Theuluoedd (est. 3936).